

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

RHONDDA CYNON TAF COUNTY BOROUGH COUNCIL

Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg

Bydd cyfarfod o **Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg** yn cael ei gynnal
Dydd Llun, 29 Ebrill 2019 am 10.00 am
Siambwr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach,
Tonypandy CF40 2XX

Dolen gyswilt: Hannah Williams - Uned Busnes y Cyngor - Gwasanaethau Llywodraethol
(01443 424062)

MATERION I'W TRAFOD

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

Nodwch:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw.
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg a gynhaliwyd ar 10 Hydref, 2018.

(Tudalennau 3 - 8)

3. CAMPAU DŴR CYFRWNG CYMRAEG

Derbyn cyflwyniad gan Mr Jonathan Phillips, y Swyddog Datblygu Campau Dŵr, mewn perthynas â'r cynnydd cadarnhaol sy'n cael ei wneud o ran cyflwyno Campau Dŵr Cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn ofyniad yng Nghynllun Gweithredu 5 mlynedd y Cyngor i hyrwyddo'r Gymraeg yn Rhondda Cynon Taf.

4. ADRODDIAD BLYNYDDOL - CYDYMFFURFIO Â SAFONAU'R GYMRAEG

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned, sy'n rhoi cyfle i'r Grŵp Llywio drafod Adroddiad Blynyddol mewn perthynas â Chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ar gyfer 2018/19.

(Tudalennau 9 - 48)

5. RHESTR O ENWAU LLEOEDD SAFONOL COMISIYNYDD Y GYMRAEG

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned, sy'n rhoi diweddariad i Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg ynglŷn ag ymateb y Cyngor i Restr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru a gafodd ei chyhoeddi gan Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Gorffennaf 2018.

(Tudalennau 49 - 52)

6. YMGYRCHOEDD AR Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL YN 2019-2020

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned sy'n darparu gwybodaeth i Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg ynglŷn â'r cynllun arfaethedig i hyrwyddo achlysuron lleol a chenedlaethol Cymraeg/dwyieithog gwahanol ar y cyfryngau cymdeithasol bob chwarter. Byddai hyn yn rhan o Gynllun Gweithredu 5 mlynedd y Cyngor i hyrwyddo'r Gymraeg yn Rhondda Cynon Taf.

(Tudalennau 53 - 96)

7. MATERION BRYD

Trafod unrhyw faterion eraill sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn faterion bryd yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

CYLCHREDIAD: -

Y CYNGHORWYR

Y Cyngorydd G Hopkins (Cadeirydd)
Y Cyngorydd J Rosser (Is-gadeirydd)
Y Cyngorydd R Bevan
Y Cyngorydd M Webber
Y Cyngorydd J James
Y Cyngorydd E Stephens

SWYDDOGION:

Paul Mee, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned.
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu
Gaynor Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Wendy Edwards, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau yn y Gymuned
Steffan Gealy, Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg

MENTER IAITH

Einir Sion